**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref :P-04-564
Ein cyf/Our ref VG/00213/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

7 Chwefror 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb: P-04-564 sy'n ymwneud ag adfer gwelyau cleifion mewnol, darpariaeth anafiadau mân, ac uned pelydr-X i Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog.

Rwy'n nodi'r adroddiad cryno a chasgliadau'r pwyllgor.

Roedd yn bleser gennyf agor Canolfan Goffa Ffestiniog ym Mlaenau Ffestiniog yn swyddogol ar 30 Tachwedd 2017. Cafodd y Ganolfan ei hadeiladu gyda £3.9 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ganolfan newydd yn ddatblygiad cyffrous sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol ym maes iechyd, llesiant ac atal ar gyfer y gymuned leol.

Fel sy'n ofynnol i brosiectau sydd wedi cael eu hariannu drwy raglen Cyllid Cyfalaf GIG Cymru Gyfan, rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnal gwerthusiad o'r prosiect ar ôl i'r Ganolfan newydd ddechrau ar ei gwaith, a hynny erbyn diwedd 2018. Bydd y gwerthusiad hwn yn asesu'r manteision a'r canlyniadau i'r boblogaeth leol sydd wedi dod yn sgil y datblygiad. Hefyd, bydd y bwrdd iechyd yn parhau i sicrhau bod y ganolfan ar gael i gynnig gwasanaethau ychwanegol lle bo gofyn amdanynt, a'r disgwyl yw y bydd ei gwasanaethau'n datblygu dros gyfnod o amser mewn modd sy'n adlewyrchu'r angen i wella iechyd y cyhoedd ac yn unol â'r strategaeth Gofal yn Nes at y Cartref.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n ymwybodol bod y bwrdd iechyd wedi ymateb i argymhellion Pwyllgor Craffu Gwynedd sy'n ymwneud â gofal iechyd yn ardal Ffestiniog, o fis Medi 2017, a'i fod wedi cadarnhau ei fod wedi ymrwymo i weithio gyda'i bartneriaid a rhanddeiliaid yn yr ardal. Rwy'n deall y bu trafod pellach yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu ar Ofal y cyngor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services